



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

Adroddiad Blynyddol 2020-21

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Intec
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4FG

01248 371839

swyddfa@cyfieithwyr.cymru

www.cyfieithwyr.cymru



@cyfieithwyr

Cofrestrwyd yng Nghymru: 4741023

Cynnwys

Cynnwys	1
Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru	2
Gair gan Gadeirydd y Gymdeithas	3
Nia'n dathlu'r 20!	4
Mari Lisa Davies, 1962–2020	5
Effaith Covid-19 ar waith y Gymdeithas	6
Llywodraethiant a rheolaeth	9
Gair o ddiolch gan y Prif Weithredwr	11
Yr adroddiad ar weithgareddau 2020–21	
1. Rhagair	12
2. Cynnal a chynyddu'r aelodaeth	13
3. Hybu datblygu proffesiynol	16
4. Cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol	18
5. Codi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol	23



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r corff cenedlaethol sy'n arwain, datblygu a hyrwyddo cyfieithu proffesiynol. Hi yw'r unig gymdeithas broffesiynol ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg <> Saesneg, p'un a ydynt yn gyfieithwyr testun ynteu'n gyfieithwyr ar y pryd, a bu'n allweddol wrth greu cymuned o gyfieithwyr proffesiynol ledled Cymru.

Mae gan y Gymdeithas dair lefel o aelodaeth: Cyflawn a Sylfaenol ym maes cyfieithu testun, ac aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd (CAP).

Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg <> Saesneg: mae aelodau'r Gymdeithas yn gweithio mewn swyddi yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn y sector preifat, ac ar eu liwt eu hunain.

Ers ei sefydlu yn 1976 mae'r Gymdeithas wedi:

- cynnal, datblygu a hyrwyddo'r safonau proffesiynol uchaf mewn cyfieithu Cymraeg <> Saesneg trwy osod y safonau cyfieithu proffesiynol hynny, a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.
- sicrhau bod y proffesiwn/diwydiant cyfieithu yn datblygu'n effeithiol fel rhan o'r broses o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a'i fod yn gallu ymateb yn rhagweithiol i anghenion y Gymru ddwyieithog sydd ohoni.

Wrth fynd ati i gyflawni hyn, bwriad y Gymdeithas yw cynrychioli'r rhan fwyaf o gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg <> Saesneg, lleihau'r achosion lle gall unrhyw un ei (g)alw ei hun yn gyfieithydd, a gwella dealltwriaeth a gwybodaeth y rhai sy'n gyfrifol am gaffael gwasanaethau cyfieithu a rhoi'r sicrwydd iddynt y gallant ddisgwyl gwaith o safon.

Trwy roi grant blynyddol i'r Gymdeithas ers 1997 – yn uniongyrchol ers 2016 a thrwy law Comisiynydd y Gymraeg (2012–16) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn hynny – mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi dros £1.7 miliwn yng ngwaith y Gymdeithas i ddatblygu, hyrwyddo a chryfhau'r diwydiant/proffesiwn cyfieithu Cymraeg <> Saesneg: 'cefnogaeth barhaus', fel y nodir yn strategaeth *Cymraeg 2050*, sy'n allweddol wrth iddi gyflawni ei swyddogaeth a'i chenhadaeth.



Gair gan Gadeirydd y Gymdeithas

Pleser o'r mwyaf unwaith eto eleni yw cynnig gair o gyflwyniad i Adroddiad Blynyddol Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ar ran fy nghyd-gyfarwyddwyr. Dyma adroddiad sy'n cwmpasu deuddeg mis a dreuliwyd dan ryw lun o gyfyngiadau o un pen y flwyddyn ariannol i'r llall, wrth i bandemig Covid-19 effeithio ar bob un ohonom mewn ffyrdd gwahanol.

Yn ystod y flwyddyn hon, bu gofyn i lawer ohonom ddysgu pethau newydd. I nifer, daeth geiriau fel Zoom a Teams yn rhan o'n geirfa ddyddiol, a daethom yn gyfarwydd â chysylltu o bell â chyfeillion, cydweithwyr a chwsmeriaid drwy gyfryngau o'r fath. Dysgom sut i droi'r tŷ yn swyddfa dros dro, sut i gydbwyso hamdden a gwaith dan yr unto, a sut i ofalu am ein gilydd – a ni ein hunain – wrth i'r pandemig feddiannu cymaint o'n bywydau.

Mae'n dda deall bod y diwydiant cyfieithu Cymraeg wedi goroesi i raddau helaeth drwy'r cyfan, a hynny'n arwydd o allu arbennig cymaint o'n haelodau i ymateb i sefyllfaoedd newidiol ac addasu eu ffyrdd o weithio. Hoffwn ddiolch i bawb ohonoch a fu'n barod i helpu eich cyd-aelodau drwy'r cyfnod ansicr hwn wrth i bawb ohonom ddygymod â thechnolegau newydd.

Er gwaetha'r cyfyngiadau, bu'n flwyddyn brysur i'r Gymdeithas, a diolch i'r rhai a fu wrthi'n ddygn yn cynnal sesiynau i'n helpu ni i hogi ein harfau meddyliol yn ystod y flwyddyn. Hoffwn ddiolch o waelod calon hefyd i Geraint a Nia am gynnal gweithgareddau o ddydd i ddydd y Gymdeithas mor ddiraffferth, a gofalu bod y Gymdeithas yn parhau i fod mewn sefyllfa dda i ymateb i anghenion yr aelodau. Ac i'm cyd-aelodau, diolch i chi i gyd hefyd am eich ffyddlondeb i'r Gymdeithas unwaith eto eleni drwy ymaelodi a manteisio ar ei darpariaeth.

Bu'r holl hunanynysu, cadw pellter a cheisio cyfathrebu drwy fgydau yn straen i nifer ohonom, ac yn y gymdeithas yn ehangach, gwelwyd sawl sefyllfa'n codi lle'r oedd modd i bobl gamddeall a chael eu drysu, a mynd yn flin oherwydd hynny. Daeth yn fwyfwy amlwg pa mor bwysig yw ein rôl ni fel cyfieithwyr wrth geisio cyfleu gwybodaeth yn gywir a dealladwy. Dymunaf yn dda i bawb ohonoch gyda'r gwaith allweddol rydych chi i gyd yn parhau i'w wneud wrth i ni ymateb i'r pandemig a'r 'normal newydd' sy'n datblygu o'n cwmpas ni.

Huw Tegid Roberts



Nia'n dathlu'r 20!

Ym mis Gorffennaf dathlodd Nia Wyn Jones, ein Rheolwr Systemau, garreg filltir nodedig iawn, sef ugain mlynedd o weithio i'r Gymdeithas. Pan ddechreuodd Nia weithio i'r Gymdeithas yn 2000, hi oedd yr unig un oedd yn amser llawn – Cyfarwyddwr rhan amser oedd Megan Hughes Tomos ar y pryd – ond buan y cafodd gwmni eraill ohonom yn y swyddfa o fore gwyn tan nos! Fel y gwyddoch mae Nia wedi chwarae rhan gwbl allweddol yn natblygiad y Gymdeithas yn ystod y cyfnod hwnnw. Nid y lleiaf o'i gorchwylion niferus yw trefnu'r arholiadau a'r profion CAP a sicrhau eu bod yn mynd rhagddynt yn ddidrafferth ac yn effeithiol.

Yn ei gadwyn hyfryd o englynion i ddathlu'r ugain mlynedd, mae Ifan Prys wedi gweu yn gelfydd yr adeiladau a fu'n gartref i'r Gymdeithas ers 2000, sef Aethwy ym Mhrifysgol Bangor; Bryn Menai, ein swyddfa o 2001 tan fis Medi 2019; a'r swyddfa newydd yn Intec ar gyrion Bangor.

Nia

Mae eleni'n ugain mlynedd: daethost
i Aethwy i eistedd
a rhoi i'r swydd dy oll o'r sedd;
dy faes ar flaen dy fysedd.

Ac am dy waith i'r Gymdeithas, mynaist
ym Mryn Menai'i hurddas;
mor ddi-gwyn dy gymwynas,
un glew wyt a'r gorau glas.

Yna Intec oedd yr antur newydd
Nia, tithau'n brysur,
am mai mwy na phedwar mur
hyn o waith sydd i'w wneuthur!

Aelodaeth ac arholiadau, y ffeils
a'r ffôn a'r galwadau:
Nia rwyf yn sicrhau
y bythol drefn ar bethau.

Cyflwynwyd yr englynion i Nia yng nghyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr ym mis Gorffennaf, ac yna wedi'u hysgrifennu'n gain a'u fframio.



Mari Lisa Davies, 1962–2020

Fe'n syfrdanwyd ym mis Tachwedd gan y newyddion am farwolaeth sydyn a disymwth Mari Lisa, a oedd yn ddychryn i bawb.

Bu i Mari wneud cyfraniad gwerthfawr iawn i weithgareddau'r Gymdeithas, cyfraniad a gafodd ei werthfawrogi'n fawr iawn gan bawb. Roedd Mari'n un o Gyfarwyddwyr y Gymdeithas, yn farciwr ac yn diwtor, ac yn un a gyfrannodd yn hael i weithgareddau'r Gymdeithas. Yn ogystal â bod yn gyfieithydd uchel ei pharch, roedd Mari'n nofelydd ac yn fardd.

Roedd Mari'n gweithio i Senedd Cymru. Rydym yn hynod o ddiolchgar i ddau o'i chydweithwyr yn y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi, Sarah Roberts ac Aron Pritchard, am gael cyhoeddi teyrnged ac englyn coffa i Mari a ymddangosodd ar fewnryd y Senedd adeg ei marwolaeth.

'Roedd Mari'n unigolyn arbennig iawn ac roedd ei chyfraniad i'r gwasanaeth yn unigryw. Roedd pob un o'i chydweithwyr agos yn cydnabod hynny ac yn wirioneddol hapus pan gafodd gydnabyddiaeth am ei hymroddiad a'i hangerdd yn y cynllun cydnabyddiaeth y llynedd. O gofio fod Mari'n hen law ar ennill gwobrau a chystadlaethau, rwy'n cofio'r sioc o'i gweld mor emosiynol pan glywodd gyntaf am yr enwebiad. Dywedodd ei fod yn golygu mwy iddi nag ennill y loteri. Er y bu Mari'n gweithio'n llawn amser o'i chartref am y 5 mlynedd diwethaf, roedd ei chyfraniad a'i phresenoldeb i'w deimlo'n gryf yn y swyddfa ac mae'r ffaith ein bod ni, fel gwasanaeth, wedi gallu manteisio ar y cyfle hwnnw y llynedd i dathlu cyfraniad Mari yn mynd i'n helpu rywfodd i ddelio â'i marwolaeth annhymig.

Bu'n fraint gweithio gydag unigolyn mor gymwynasgar, pwylllog a thalentog â Mari. Rydym i gyd yn teimlo'r golled yn ddirfawr ac yn methu dychmygu gweithio hebdi.'

- Sarah Roberts

Erys angerdd a cherddi, geiriau'r iaith
â'u graen ar ddalenni,
oherwydd yr oedd Mari'n
ddoniau oes o rodd i ni.

- Aron Pritchard



Effaith Covid-19 ar waith y Gymdeithas

Ar ddechrau'r flwyddyn dan sylw ychydig a wyddom am yr hyn a oedd o'n blaenau, na sut yr oedd ein ffordd o weithio, a byw, yn mynd i newid. Fel pawb arall, gorfododd Covid-19 y Gymdeithas i addasu ei threfniadau gwaith, a bu'n rhaid i'r staff gefnu ar y swyddfa gymharol newydd yn Intec a gweithio gartref. Llwyddwyd i barhau i gyflawni'r gwaith beunyddiol o weinyddu, trefnu a rheoli'r Gymdeithas heb lawer o anhawster ar y cyfan.

Gan i ni benderfynu y byddai gwaith y Gymdeithas yn parhau, ni wnaed cais am unrhyw gymorth ariannol a oedd ar gael. Nid yw'r Gymdeithas yn talu trethi annomestig, felly, nid oeddem yn gymwys am grant trethi busnes Cyngor Gwynedd.

O'r dechrau'n deg, rhoddwyd pwyslais ar gadw mewn cysylltiad â'n haelodau ac ar ddarparu cymaint o wybodaeth berthnasol ag yr oedd modd. Gwnaed hyn trwy anfon Bwletin Newyddion at yr aelodau'n rheolaidd ddwywaith y mis rhwng Ebrill a Gorffennaf ac yn fisol, o leiaf, wedi hynny, 20 Bwletin Newyddion i gyd. Cyfeiriwyd yr aelodau yn rheolaidd at ffynonellau gwybodaeth a chysylltiadau a allai fod yn ddefnyddiol iddynt, gan gynnwys gwybodaeth am y cymorth ariannol a oedd ar gael gan Lywodraethau Cymru a'r DU a'r cymorth busnes oedd ar gael gan Busnes Cymru, yn ogystal â'r wybodaeth gyffredinol am y rheolau a'r rheoliadau oedd yn gysylltiedig ag ystod eang o faterion yn ymwneud â Covid-19 ar wefan Llywodraeth Cymru a'r wybodaeth ar wefan Ymchwil y Senedd, Pigion. Tynnwyd sylw hefyd at wybodaeth a fyddai o fudd i les ac iechyd aelodau.

Bu'n flwyddyn o ganslo a gohirio, o beidio â chynnal digwyddiadau ac o fethu croesawu aelodau newydd i'n plith. Ni chynhaliwyd yr Arholiadau Aelodaeth Testun (felly ni fu'n bosib dyfarnu Gwobr Goffa Wil Petherbridge na Gwobr Berwyn), na'r un gweithdy wyneb-yn-wyneb, a gohiriwyd Diwrnod y Prawf CAP. Ni chafwyd Diwrnod i'r Aelodau, Cyfarfod Blynyddol na Darlith Goffa Hedley Gibbard.

Roedd yn galonddid o'r mwyaf na chafodd Covid-19 unrhyw effaith ar deyrngarwch yr aelodau i'r Gymdeithas a bod nifer yr aelodau wedi parhau'n uchel.

Cynhaliwyd pob un o gyfarfodydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn rhithwir dros Teams. Rhagwelir y bydd y drefn hon o'u cynnal ar-lein yn parhau, ond y cynhelir o leiaf un cyfarfod wyneb-yn-wyneb yn flynyddol.

Ymatebwyd yn uniongyrchol i rai o'r newidiadau a orfodwyd yn sgil Covid-19. Crëwyd tudalen yn yr adran cyfieithu ar y pryd ar y wefan er mwyn rhoi gwybodaeth am gyfieithu ar y pryd o bell; ac ychwanegwyd is-adran newydd yn y gwasanaeth chwilio am gyfieithydd ar y pryd er mwyn caniatáu dod o hyd i gyfieithwyr ar y pryd oedd yn cynnig gwasanaeth o bell. Pwyswyd ar Microsoft Teams i ychwanegu sianel a fyddai'n caniatáu cyfieithu ar y pryd. Cyfrannwyd sylwadau gwerthfawr i nodyn cyngor Comisiynydd y Gymraeg, 'Cynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog' a roddai arweiniad ymarferol i sefydliadau ar sut y gellid parhau i gynnig gwasanaethau dwyieithog o safon.



Cysylltwyd â'r Gweinidog gyda chyfrifoldeb am y Gymraeg ar fwy nag un achlysur yn eiriol dros gyfieithwyr. Yn un o'i hatebion dywedodd Eluned Morgan AS fod 'cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd wedi bod yn hollbwysig i'r ffordd y mae sefydliadau o bob math wedi ymateb i'r pandemig, gan addasu i amgylchiadau newydd fel gweithio o adref, ac mae eu proffesiynoldeb yn hynny o beth wedi bod yn bleser i'w weld'.

Ond sut flwyddyn fu hi ar ein haelodau a'r proffesiwn cyfieithu'n gyffredinol?

Ym mhob un Bwletin Newyddion anogwyd yr aelodau i gadw mewn cysylltiad a rhannu eu profiadau am effaith Covid-19 ar eu gwaith.

Yn naturiol, roedd 'rhyfedd' a 'pryderus' yn ddau air a ddefnyddiwyd yn aml i ddisgrifio wythnosau cyntaf y cyfnod clo pan fu'n gyfnod distaw yn gyffredinol. Creodd yr ymatebion a gawsom ddarlun amrywiol o effaith Covid-19 ar waith cyfieithwyr, o golli gwaith i fod yn brysur iawn.

Yn ogystal ag annog aelodau i roi gwybod yn eu ffordd eu hunain beth oedd effeithiau Covid-19 arnynt, aed ati hefyd mewn dulliau mwy ffurfiol i gael gwybodaeth a cheisio cadw bys ar y pyls. Ysgrifennwyd at bron i hanner cant o sefydliadau ym mis Ebrill (a chael ymatebion gan tua'u hanner); ym mis Hydref cynhaliwyd arolwg o effeithiau Covid-19 ar gyfieithu ar y pryd trwy anfon holiadur at Aelodau CAP hunangyflogedig ac at gwmnïau (a chael ymatebion gan tua'u hanner); a chyn y Nadolig anfonwyd holiadur at holl aelodau'r Gymdeithas er mwyn cael gwybod sut yr effeithiodd argyfwng Covid-19 arnynt yn ariannol ac yn bersonol (a chael atebion gan 24 ohonynt, y rhan fwyaf yn gyfieithwyr llawrydd).

Mae'n werth nodi rhai o'r sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn 'Beth gredwch chi fydd effaith y flwyddyn hon ar gyfieithu yn y blynyddoedd i ddod?' yn yr holiadur olaf:

- Mwy o ddibyniaeth ar dechnoleg a chysylltiadau â'r we (a chyfleoedd yn codi yn sgil hynny). Posibilrwydd o fwy o gydweithio rhwng cyrff cyfieithu. Cyfle i'r llywodraeth sicrhau mai cwmnïau cyfieithu o Gymru sy'n ennill tendrau cyfieithu'r sector cyhoeddus yn hytrach na thrydydd partïon mawr sy'n gallu fforddio cynnig prisiau is ac sydd yna'n recriwtio cyfieithwyr ar gyfradd isel iawn.
- Bydd mwy a mwy o dechnoleg yn y byd cyfieithu. Bydd angen paratoi'r gweithlu ar gyfer hynny.
- A fydd llai o arian cyhoeddus i sefydliadau, a hynny'n effeithio ar y byd cyfieithu? Ac yn ehangach, mae ein byd cyfieithu ni yn ddibynnol wrth gwrs ar Gymru lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad. Mae'r pandemig yn cael effaith ar faterion fel demograffeg a byd gwaith.
- Os yw pobl wedi dechrau gwneud heb gyfieithu er mwyn arbed arian, neu wedi dechrau defnyddio Google Translate neu debyg, efallai y byddan nhw'n ceisio parhau i wneud hynny.
- O ran cyfieithu ysgrifenedig, dwi ddim yn rhag-weld newid yn y galw, ond efallai fod oes y swyddfa a chymudo wedi dod i ben. Mae'n debyg y bydd byd cyfieithu ar y pryd yn gweld mwy o newid na maes cyfieithu ar bapur, am fod cyfarfodydd rhithwir yma i aros am wn i.



Y casgliad cyffredinol y gellir dod iddo yw fod y proffesiwn cyfieithu wedi goroesi'r flwyddyn ddiwethaf yn eithaf llwyddiannus ar y cyfan a bod y sefyllfa'n ymddangos yn gyffredinol gadarnhaol. Parhaodd cyfieithwyr yn y sector cyhoeddus yn brysur yn bennaf oherwydd yr angen i gyfieithu deunydd yn ymwneud â Covid-19 a roddodd gryn bwysau arnynt; llwyddodd cyfieithwyr hunangyflogedig a chwmnïau i ddal eu pennau uwchben y dŵr ar y cyfan (a chafodd sawl un gymorth trwy'r pecynnau a oedd ar gael); ond y garfan a'i chafodd hi waethaf oedd cyfieithwyr ar y pryd wrth i gyfarfodydd gael eu canslo – roedd incwm y rhai a ymatebodd i holiadur mis Hydref wedi gostwng ar gyfartaledd 76% o gymharu â'r un cyfnod yn 2019 ac roedd eu hoffer CAP yn sefyll yn segur.

Y datblygiadau mwyaf arwyddocaol a welsom, wrth i gyfarfodydd o gwmpas y bwrdd ddod i ben dros nos ac i gyfarfodydd rhithwir gymryd eu lle yr un mor sydyn, oedd y modd y darparwyd cyfieithu ar y pryd. Bu'n rhaid i gyfieithwyr ar y pryd addasu'n gyflym i'r dull newydd a dieithr hwn o ddarparu'r gwasanaeth. Roedd y ffaith fod y Senedd wedi dangos y fath flaengaredd yn hwb ac yn ysbrydoliaeth. Mae cyfieithwyr ar y pryd i'w canmol am ymateb i'r her yn effeithiol, yn ddyfeisgar ac yn broffesiynol. Ni fu hynny heb ei anawsterau na'i rwystredigaethau, a bu llawer o ddysgu, treialu ac arbrofi wrth ymgyswngu â darparu cyfieithu ar y pryd o bell. Ia, daeth Zoom yn rhan o'n geirfa beunyddiol, a Teams hefyd.

Yn ystod misoedd cyntaf Covid-19, ychydig iawn o swyddi cyfieithu a hysbysebwyd, ond gwelwyd cynnydd graddol wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi amlygu dau beth diymwad: pwysigrwydd cyfieithu mewn argyfwng wrth i gyfieithwyr ymateb yn broffesiynol trwy gyflawni gwaith o fewn terfynau amser ac amgylchiadau heriol, yn ogystal â dangos na ellir hepgor y Gymraeg mewn cyfnod o argyfwng a bod iddi le canolog wrth gyfathrebu.



Llywodraethiant a rheolaeth

Rheoli'r Gymdeithas

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf. yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Fe'i corfforwyd yn 2003. Rhif cofrestredig y cwmni yw 4741023. Cyfeiriad y swyddfa gofrestrdedig yw Intec, Parc Menai, Bangor, LL57 4FG. Prif Weithredwr y Gymdeithas, Geraint Wyn Parry, yw Ysgrifennydd y Cwmni.

Rheolir y Gymdeithas gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a etholir o blith holl aelodau'r Gymdeithas. Gwasanaethodd y canlynol yn ystod 2020–21: David Bullock, [Mari Lisa Davies] (hyd at 20 Tachwedd), Bethan M. Evans, Fiona Gannon, Steffan Gealy, Hywel G. Hughes, Catherine Jones, Mary Jones, Hywel Pennar, Ifan Prys, Claire Richards, Huw Tegid Roberts (Cadeirydd).

Fel arwydd o barch, penderfynwyd peidio â llenwi'r sedd wag a adawyd gan farwolaeth annhymig Mari Lisa yn syth. Gwneir hyn pan yr etholir Cyfarwyddwyr fel rhan o fusnes Cyfarfod Blynyddol 2021.

Cyfarfu Bwrdd y Cyfarwyddwyr bedair gwaith yn ystod y flwyddyn, ar 23 Gorffennaf, 1 Rhagfyr, 28 Ionawr a 25 Mawrth, pob un yn rhithwir.

Oherwydd yr amgylchiadau, penderfynwyd peidio â chynnal Cyfarfod Blynyddol yn 2020. Trefnwyd cyfnod o ymgynghori i'r aelodau gynnig sylwadau a gofyn cwestiynau ynghylch yr adroddiad ar weithgareddau a'r cyfrifon blynyddol.

Mae gan y Gymdeithas bedwar Bwrdd/Pwyllgor arall.

Mae dau ohonynt yn gysylltiedig â'r drefn arholi, sef y Bwrdd Arholi Testunau (y mae iddo dri aelod craidd, sef y Prif Arholwr a'r ddau ddirprwy, ynghyd â marcwyr y rownd honno o arholiadau); a'r Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd (y mae iddo dri aelod craidd, sef y Prif Arholwr a'r ddau ddirprwy, ynghyd ag aseswyr y Prawf CAP hwnnw). Fiona Gannon yw Prif Arholwr y Gymdeithas ac mae ganddi gyfrifoldeb am yr Arholiadau Aelodaeth Testun a'r Prawf CAP.

Yn ystod y flwyddyn sefydlwyd y Pwyllgor Materion CAP. Bydd hwn yn bwyllgor ymgynghorol i drafod materion cyffredinol yn ymwneud â CAP yn unig ac ni fydd yn chwarae unrhyw ran yn nhrefn asesu CAP y Gymdeithas. Cyfarfu am y tro cyntaf ym mis Chwefror.

Y pedwerydd pwyllgor yw'r Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol. Ni fu'n rhaid i'r pwyllgor hwn gyfarfod yn ystod y flwyddyn.

Y sefyllfa ariannol

Cafwyd grant o £50,000 gan Lywodraeth Cymru tuag at y swyddi a chostau swyddfa. Amod o'r grant oedd yr angen i gyflawni targedau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw. Roedd y llythyr yn cynnig y grant yn nodi mai ei ddiben 'yw'ch galluogi i barhau i gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol, gan ddatblygu'ch gweithgareddau [...] sy'n ymwneud yn benodol â'r drefn asesu, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol, a sicrhau safonau proffesiynol'. Nododd y llythyr hefyd fod



gwaith y Gymdeithas yn 'cyfrannu at nifer o'r camau a nodir yn strategaeth *Cymraeg 2050*, gan gynnwys hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn y gymuned'.

Y brif ffynhonnell arall o incwm i'r Gymdeithas oedd y taliadau aelodaeth, sef £44,447.

Dengys y cyfrifon fod gan y Gymdeithas gronfa o £181,655 ar ddiwedd y flwyddyn.

Paratowyd yr Adroddiad Ariannol (heb archwiliad) gan Owain Bebb a'i Gwmni, Caernarfon, yn unol â'r darpariaethau arbennig o Ran 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bychain ac FRS 102, Rhan 1A.



Gair o ddiolch gan y Prif Weithredwr, Geraint Wyn Parry

Bu hon yn flwyddyn fel na fu ei thebyg o'r blaen. Yn dilyn y cyfarwyddyd a gafwyd ddiwedd mis Mawrth 2020 bu Nia a minnau'n gweithio gartref am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Llwyddwyd i gyflawni'r gwaith beunyddiol o weinyddu, trefnu a rheoli'r Gymdeithas heb lawer o anhawster. Bu'r ffôn a Teams yn ddulliau hwylus o siarad â'n gilydd.

Mewn ymateb i'r sefyllfa, cytunodd Bwrdd y Cyfarwyddwyr i drefniadau cytundebol i'r ddau ohonom a oedd yn gweddu i'r amgylchiadau. Rydym yn ddiolchgar iddynt am hynny.

Hoffwn ddatgan fy niolch a'm gwerthfawrogiad i Nia am y modd y bu iddi hi ddygymod â'r heriau a'n hwynebodd ac am fwrw ymlaen â'i gwaith yr un mor effeithiol ag erioed. A bu 2020 yn flwyddyn nodedig iddi hi wrth iddi hi ddatlu ugain mlynedd o weithio i'r Gymdeithas ym mis Gorffennaf. Mae ei gwasanaeth a'i hymroddiad i'r Gymdeithas i'w edmygu'n fawr. Hi, wrth gwrs, sy'n gyfrifol am waith creiddiol a phwysicaf y Gymdeithas, sef trefnu a gweinyddu'r Arholiadau Aelodaeth Testun a'r Prawf Cyfieithu ar y Pryd, yn ogystal â chadw golwg ar y materion ariannol o ddydd-i-ddydd, gwaith a wna'n dawel effeithlon. Heb os, mae hyn yn hwyluso gwaith y Prif Weithredwr yn fawr!

Hoffwn ddiolch o galon i Huw Tegid Roberts, ein Cadeirydd, am ei gefnogaeth barhaus, ei gyngor doeth a'i arweiniad effeithiol. Bu'r cydweithio rhyngom yn rhwydd a didrafferth.

Gaf fi hefyd ddiolch i holl aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr am eu doethineb wrth gyflawni eu gwaith, ac am eu ffyddlondeb i gyfarfodydd y Bwrdd.

Mae Fiona Gannon, ein Prif Arholwr, yn un sy'n chwarae rhan allweddol yng ngwaith y Gymdeithas. Hoffwn ddiolch iddi hithau am ei harweiniad cadarn wrth lywio gweithgarwch pwysica'r Gymdeithas yn enwedig wrth i ni ystyried dulliau eraill o'u cynnal.

Mae nifer o aelodau, ac eraill, yn gwasanaethu'r Gymdeithas mewn ffyrdd eraill. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r rhai sy'n cyfrannu at waith y Gymdeithas fel tiwtoriaid gweithdai a'r rhai sydd mor barod i gynorthwyo pan af ar eu galw ynghylch rhyw dasg neu'i gilydd. Edrychaf ymlaen at gael diolch i arholwyr a marcwyr a goruchwylwyr yr arholiadau unwaith eto mewn blwyddyn. Mae'r cydweithio braf rhwng y staff a'r aelodau trwy'r ymwneud hwn yn un o gryfderau mawr y Gymdeithas, a hir y parhaed hynny.

Caiff y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Hoffwn ddiolch am y grant hwn sydd wedi rhoi sefydlogrwydd i'r Gymdeithas, yn ogystal â chaniatáu i ni barhau â'n cenhadaeth bwysig o gynnal safonau cyfieithu proffesiynol.

Ac yn olaf, gair o ddiolch i'r aelodau. Ia, am eu ffyddlondeb i'r Gymdeithas. Hefyd, am y modd y bu iddynt ymateb yn gadarnhaol ac yn broffesiynol i'r sefyllfa a'n wynebodd gan ddod â bri i'r proffesiwn.



Yr adroddiad ar weithgareddau 2020–21

1. Rhagair

Mae'r adroddiad ar weithgareddau 2020–21 ar y tudalennau nesaf wedi ei baratoi i adlewyrchu amcanion strategol Cynllun Strategol y Gymdeithas. Bydd yr adrannau sy'n dilyn yn adrodd ar gyflawni pedwar amcan strategol y Gymdeithas:

- cynnal a chynyddu'r aelodaeth;
- hybu datblygu proffesiynol;
- cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol;
- codi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol.

Mae'r Cynllun Strategol yn hyrwyddo nod ac amcanion y Gymdeithas trwy adeiladu ar seiliau cadarn y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n caniatáu i'r Gymdeithas barhau ei chenhadaeth o ddatblygu'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg <> Saesneg ymhellach, ynghyd â'i swyddogaeth bwysig fel lladmerydd yn eiriol dros fuddiannau ei haelodau.

Roedd yr egwyddor graidd hon wrth wraidd y rhaglen waith a osodwyd ar gyfer 2020–21 a thargedau grant Llywodraeth Cymru, rhaglen yr amharwyd arni gan Covid-19. Bwriad y Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn oedd:

- cynyddu nifer y cyfieithwyr Cymraeg <> Saesneg y mae'n eu cynrychioli.
- cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd;
- hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr trwy drefnu rhaglen amrywiol o weithdai, ac annog a hyrwyddo datblygu proffesiynol parhaus;
- cynnal perthynas â sefydliadau Addysg Uwch, yn enwedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a'r cyrsiau academaidd yn y maes;
- cynnal a meithrin ei chysylltiadau â chyrrff a sefydliadau eraill y tu mewn a'r tu allan i'r byd cyfieithu;
- hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol y Gymdeithas, codi proffil cyfieithu proffesiynol a marchnata'i haelodau.

Serch cyfyngiadau Covid-19, llwyddwyd i barhau i gynrychioli diddordebau'r aelodau, cynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

Wrth ddarllen yr adroddiad hwn fe'ch cynghorir yn gryf i ymweld â gwefan y Gymdeithas <https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/> - lle cewch wybod rhagor am y Gymdeithas a'r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Cafodd y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru yn 2020–21.



2. Cynnal a chynyddu'r aelodaeth

Nod yr amcan strategol hwn yw sicrhau y bydd y Gymdeithas yn cynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr, ac yn ymestyn ei dylanwad a'i heffaith trwy gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol.

Dim ond drwy lwyddo yn Arholiadau Aelodaeth Testun neu ym Mhrawf CAP y Gymdeithas y gellir dod yn aelod. Mae dwy lefel aelodaeth i gyfieithwyr testun, Cyflawn a Sylfaenol. Un lefel aelodaeth sydd i gyfieithwyr ar y pryd, a honno naill ai i'r Saesneg neu i'r Gymraeg. Dim ond unigolion all fod yn aelodau o'r Gymdeithas.

2.1 Aelodaeth y Gymdeithas

Ar 31 Mawrth 2021 roedd gan y Gymdeithas 399 o aelodau, fel a ganlyn:

Aelodau Cyflawn:	206
Aelodau Sylfaenol:	174
Aelodau CAP:	76 *

* O'r 76 Aelod CAP, roedd 19 yn Aelodau CAP yn unig. Roedd y lleill naill ai'n Aelodau Cyflawn (45) ynteu'n Aelodau Sylfaenol (12) hefyd. Roedd pob un yn Aelod CAP i'r Saesneg, a 18 yn Aelodau CAP i'r Gymraeg.

Roedd yn galonddid o'r mwyaf ac yn fater o falchder na cholodd y Gymdeithas fawr ddim o aelodau yn 2020 ac na chafodd Covid-19 unrhyw effaith ar deyrngarwch yr aelodau i'r Gymdeithas.

Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg <> Saesneg. Roedd 41% o'r aelodau hyn yn gweithio yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. O'r aelodau oedd yn gweithio yn y sector preifat, roedd 40% ar eu liwt eu hunain a 19% yn gweithio i gwmnïau cyfieithu.

Cafwyd 2 aelod newydd yn ystod y flwyddyn, nifer llai na'r arfer oherwydd effaith Covid-19 ar waith y Gymdeithas.

Mae blwyddyn aelodaeth y Gymdeithas yn dechrau ar 1 Ebrill. Yn 2020–21 penderfynwyd gohirio'r ymgyrch ail-ymaelodi flynyddol. Yn hytrach na chynnal y drefn gadarn a theg i atgoffa ac ail-atgoffa aelodau i dalu'u tâl aelodaeth yn ystod Ebrill a Mai, gwnaed hynny rhwng diwedd Gorffennaf a chanol Medi. Ar diwedd y cyfnod hwn dim ond enwau aelodau oedd wedi talu'u tâl aelodaeth am y flwyddyn oedd yn ymddangos ar wefan y Gymdeithas yn y gwasanaeth dod o hyd i gyfieithydd ac yn y rhestr A-Z ar wefan.

Penderfynwyd hefyd na ddylid codi'r tâl aelodaeth yn llawn yn 2020–21 fel arwydd o ewyllys da ac i adlewyrchu'r cyfnod yr oeddem yn byw ynddo. Yn hytrach, rhoddwyd 25% o ostyngiad yn y tâl aelodaeth, sef £112.50 yn hytrach na £150, ac i Aelodau Sylfaenol yn nhair blynedd cynta'u haelodaeth, £105 yn hytrach na £140.

Cafodd pob aelod Dystysgrif Aelodaeth pan oedd wedi talu ei dâl aelodaeth. Am y tro cyntaf darparwyd y dystysgrif ar ffurfiau papur a 'pdf'.



Cafodd pob aelod gopi o'r Llawlyfr Aelodaeth. Y bwriad oedd y byddai'n ateb y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r cwestiynau a allai godi ynghylch aelodaeth o'r Gymdeithas.

Cafodd Aelodau Cyflawn ac Aelodau CAP, yn ogystal â'r Cwmnïau Cydnabyddedig a'r Sefydliadau Cydnabyddedig, ddefnyddio'r logos arbennig a ddyluniwyd ar eu cyfer.

Cynigiwyd nifer o fuddion a gwasanaethau i'r aelodau.

Mae gan bob aelod ei Gofnod Aelodaeth ar wefan y Gymdeithas, sy'n cynnwys Proffil. Fe'u hanogir hwy i sicrhau fod y wybodaeth yn y Cofnod Aelodaeth yn gywir ac yn gyfredol ac i ddefnyddio'r adnodd gwerthfawr hwn i'r eithaf.

Dosbarthwyd gwybodaeth berthnasol a defnyddiol yn y Bwletin Newyddion rheolaidd. Ymhlith y buddion eraill roedd gwybodaeth am waith a swyddi cyfieithu a gostyngiadau ar gyfer gweithdai (ni chynhaliwyd unrhyw ddiwyddiadau na'r Diwrnod i'r Aelodau). Yn hanner cyntaf y flwyddyn darparwyd gwybodaeth berthnasol a oedd yn ymwneud â Covid-19. Yn Ebrill gofynnwyd i'r ymgynghorydd busnes Cynan Jones lunio cyfarwyddyd a fyddai o gymorth i aelodau i adnabod e-byst sgam.

2.2 Ymddygiad proffesiynol

Wrth dalu eu tâl aelodaeth roedd holl aelodau'r Gymdeithas yn gwybod bod disgwyl iddynt ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol. Ynghlwm wrth y Cod mae gan y Gymdeithas drefn gwyno. Braff dweud na chafwyd yr un gŵyn yn erbyn aelod o'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gymdeithas hefyd yn cynnig Gwasanaeth Asesu Ansawdd Cyfieithiad, gwasanaeth y codir ffi amdano.

2.3 Cydnabod Meysydd Arbenigedd Proffesiynol

Trefn ar gyfer cydnabod Aelodau Cyflawn ac Aelodau CAP y Gymdeithas yn unig yw'r Maes Arbenigedd Proffesiynol, ac mae tri Maes Arbenigedd Proffesiynol.

CAP yn y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd (a ddatblygwyd drwy ymgynghori â swyddogion Gwasanaeth Llysoedd a Tribiwnlysoedd Ei Mawrhydi), cymeradwyaeth a roddwyd i 23 Aelod CAP. Roedd disgwyl mai dim ond yr aelodau CAP hyn fyddai'n cael eu galw i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn gwrandawriadau yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Cyfieithu Deddfwriaethol (a ddatblygwyd drwy ymgynghori â swyddogion Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru), cymeradwyaeth a roddwyd i 10 Aelod Cyflawn.

Cyfieithu Cyfathrebu, cymeradwyaeth a roddwyd i 16 Aelod Cyflawn.

Arferid cydnabod yr aelodau hynny a lwyddodd ym Mhrawf CAP yr Undeb Ewropeaidd yn 2009 o dan y drefn hon, ond gydag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd bu'n rhaid dod â'r gydnabyddiaeth hon i ben.



2.4 Cydnabyddiaeth i eraill

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod cwmnïau cyfieithu trwy'r drefn **Cwmni Cydnabyddedig**. Cafodd 9 cwmni eu cydnabod yn Gwmni Cydnabyddedig.

Cynigir **cydnabyddiaeth i sefydliadau cyhoeddus ac yn y trydydd sector** fel rhai Cydnabyddedig neu Gyswllt, yn amodol ar fodloni meini prawf. Cafodd 11 sefydliad eu cydnabod yn Sefydliad Cydnabyddedig a 4 yn Sefydliad Cyswllt.

Mae cydnabyddiaeth yn **Fyfyriwr Cyswllt** ar gael i fyfyrwyr sydd â'u bryd ar yrfa fel cyfieithwyr, ac mae'n fodd o annog a chefnogi myfyrwyr yn yr uchelgais hon. Cafwyd 7 Myfyriwr Cyswllt newydd yn ystod y flwyddyn. Roedd cyfanswm o 33 Myfyriwr Cyswllt wedi'u cydnabod o dan y categori hwn.

Mae'r categori **Aelod sydd wedi ymddeol** ar gyfer cyn-aelodau sydd am gadw cysylltiad â'r Gymdeithas wedi i'w hymwneud ffurfiol â'r Gymdeithas fel aelodau ddod i ben yn dilyn eu hymddeoliad. Cofrestrodd 2 gyn-aelod yn ystod y flwyddyn. Roedd 29 o gyn-aelodau yn perthyn i'r categori hwn.

Nid yw'r un o'r categorïau hyn yn golygu bod yn aelod o'r Gymdeithas: maent yn gydnabyddiaeth

2.5 Arholiadau Aelodaeth Testun

Oherwydd Covid-19 ni chynhaliwyd yr Arholiadau Aelodaeth Testun yn nag Ebrill na Hydref fel sy'n arferol.

Ystyriwyd dichonoldeb cynnal yr arholiadau o bell/ar-lein. Archwiliwyd sawl posibilrwydd gan gynnwys defnyddio Microsoft 365 a gwahanol blatfformau oedd yn caniatáu goruchwyllo. Nid oedd y platfformau yn addas yn bennaf oherwydd fod nifer ymgeiswyr arholiadau'r Gymdeithas yn rhy fach i wneud eu defnyddio yn gost effeithiol. Oherwydd na ddaethpwyd o hyd i ateb boddhaol i'r mater hwn, rhoddwyd y syniad hwn o'r neilltu ar hyn o bryd.

Aed ati i wahodd rhai Aelodau Cyflawn i ymuno â'r Gofrestr Marcwyr Arholiadau. Derbyniwyd y gwahoddiad gan 6 o aelodau. Caiff hyfforddiant i'r rhain i'w cyflwyno i'r drefn arholi ei gynnal yn 2021-22.

2.6 Y Prawf CAP

Bwriadwyd cynnal Diwrnod y Prawf CAP, sef cynnal Prawf CAP i'r Saesneg a Phrawf CAP i'r Gymraeg, ym mis Mawrth, ond fe'i gohiriwyd oherwydd Covid-19. Wrth wneud hynny, ystyriwyd dichonoldeb cynnal y Prawf CAP o bell a phan gynhaliwyd y Prawf CAP gohiriedig ym Mehefin 2021 gwnaed hynny trwy Zoom gyda CTV Sound Studios, Caerdydd, yn recordio pob ymgais.



3. Hybu datblygu proffesiynol

Nod yr amcan strategol hwn yw sicrhau cyfleoedd i gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd a fydd yn eu helpu i wella, cynyddu a datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Bydd hyn yn fodd o hyrwyddo sgiliau proffesiynol a chyflogadwydd yr aelodau.

3.1 Gweithgareddau datblygu proffesiynol a hyfforddiant

Serch gorfod lleihau'r gweithgareddau hyn, nid oedd hynny'n golygu nad oedd y Gymdeithas yn parhau i gydnabod pwysigrwydd yr angen i'w haelodau a chyfieithwyr eraill roi sylw dyledus i'w datblygu proffesiynol. Oherwydd Covid-19, cyfyngwyd y gweithgareddau hyfforddi i'r e-weithdy cyfieithu bach, hyfforddiant wedi'i deilwra a chynyddu nifer yr Ymarferion Cyfieithu (lefel Sylfaenol) ar y wefan.

Mewn ymateb i'r sefyllfa, penderfynwyd addasu'r e-weithdy cyfieithu yn **e-weithdy cyfieithu bach**. Yn yr e-weithdy cyfieithu bach roedd y dysgwyr yn cyfieithu un darn yn unig ac yn cael wythnos i lunio'u cyfieithiad. Cynigiwyd yr e-weithdy cyfieithu bach ar y ddwy lefel, Cyflawn a Sylfaenol, ac i'r Gymraeg ac i'r Saesneg. Roedd i'r fformat hwn ei rinweddau. Roedd y rhai a fanteisiodd arnynt yn gweithio yn y sector cyhoeddus, mewn cwmnïau cyfieithu preifat neu ar eu liwt eu hunain, yn ogystal ag unigolion oedd yn ystyried gyrfa fel cyfieithydd. Cynhaliwyd yr e-weithdy cyfieithu bach yn yr haf (Mai, Mehefin a Gorffennaf), yn yr hydref (Medi, Hydref a Thachwedd), ac yna yn Chwefror a Mawrth. Cymerodd 98 o unigolion ran yn yr 8 e-weithdy cyfieithu bach a drefnwyd. Ar y lefel Gyflawn, cafwyd 55 o gofrestrïadau i'r Gymraeg a 21 i'r Saesneg. Ar y lefel Sylfaenol, cafwyd 104 o gofrestrïadau i'r Gymraeg a 20 i'r Saesneg. Cofrestrodd sawl un ar gyfer mwy nag un e-weithdy cyfieithu bach, e.e. cofrestrodd 4 unigolyn ar gyfer pob un o dri e-weithdy cyfieithu bach yr haf a 5 ar gyfer pob un o rai'r hydref.

Ymatebwyd i geisiadau am **hyfforddiant wedi'i deilwra** gan sefydliadau. Trefnwyd hyfforddiant wedi'i deilwra i gyfieithwyr Partneriaeth Cyd-Wasanaethau'r GIG (a ohiriwyd ym Mawrth 2020 oherwydd Covid-19), a chychwynwyd ar raglen o hyfforddiant i gyfieithwyr Cyllid a Thollau ei Mawrhydi ar ddiwedd y flwyddyn; yn ogystal â chynghori ac hwyluso hyfforddiant i staff Comisiynydd y Gymraeg.

Defnyddiwyd darnau'r e-weithdy cyfieithu bach ar gyfer llunio'r **Ymarferion Cyfieithu (lefel Sylfaenol)** i'w gosod ar wefan y Gymdeithas. Lluniwyd 4 ymarfer newydd, 3 i'r Gymraeg ac 1 i'r Saesneg. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 22 ymarfer ar y wefan, 15 i'r Gymraeg a 7 i'r Saesneg.

3.2 Cyfieithu ar y pryd o bell

Yn yr hydref cynhaliwyd tair sesiwn drafod CAP o bell y cymerodd 32 ran ynddynt. Roeddynt yn gyfleoedd gwerthfawr a defnyddiol i rannu profiadau ac arferion da; dysgu oddi wrth y naill a'r llall; a meddwl am ffyrdd ymlaen. Un o'r pwyntiau cryfaf a wnaed oedd yr angen am wneud trefnwyd cyfarfodydd yn ymwybodol mai rôl cyfieithu yn unig sydd gan y cyfieithydd ar y pryd a phwysigrwydd sefydlu ffiniau clir rhwng cyfrifoldebau'r cyfieithydd a'r trefnydd. Trafodwyd y llwyth gwybyddol ychwanegol wrth gyfieithu ar y pryd o bell; y gwahaniaethau rhwng y gwahanol blatfformau; anfanteision cyfieithu olynol yn hytrach nag ar y pryd; a'r effaith yr oedd gweithio fel hyn wedi'u gael ar gyfieithwyr.



3.3 Balchder Crefft: Datblygu Proffesiynol Parhaus, ei fanteision

'Balchder Crefft: Datblygu Proffesiynol Parhaus, ei fanteision' yw teitl cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP) y Gymdeithas. Bwriad y ddogfen hon yw cynnig canllaw hwylus a fydd yn helpu ac yn annog aelodau'r Gymdeithas i ystyried pwysigrwydd DPP ac i lunio cynllun DPP personol. Bydd hefyd yn cynnig arweiniad i aelodau ynghylch pa weithgaredd DPP, a faint ohono, sydd fwyaf addas a pherthnasol i'w anghenion a'u dyheadau. Gall pob aelod gofnodi ei weithgarwch DPP yn ei Gofnod Aelodaeth ar wefan y Gymdeithas, cofnod y gall yr aelod ei hun a staff y Gymdeithas yn unig ei weld.

3.4 Y Gronfa Sbarduno

Mae bwriad triphlyg i'r Gronfa Sbarduno a lansiwyd yn 2017, sef:

- i) i ariannu gwobrau'r Gymdeithas i'r ymgeiswyr mwyaf addawol yn arholiadau Sylfaenol y Gymdeithas bob blwyddyn, os bydd teilyngdod, sef Gwobr Goffa Wil Petherbridge (a sefydlwyd yn 2007 ar gyfer yr ymgeisydd mwyaf addawol yn yr arholiad Sylfaenol, cyfieithu i'r Gymraeg) a Gwobr Berwyn (a sefydlwyd yn 2017 ar gyfer yr ymgeisydd mwyaf addawol yn yr arholiad Sylfaenol, cyfieithu i'r Saesneg).

Ni chafwyd cyfle i ddyfarnu'r gwobrau oherwydd Covid-19.

- ii) yn wreiddiol i gynnig gwobrau i'r myfyriwr mwyaf addawol ar gynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol Prifysgol Aberystwyth, ac i fyfyrwr mwyaf addawol y Dystysgrif Ôl-Raddedig CAP Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Yn ystod y flwyddyn, penderfynwyd newid y drefn. Yn lle cynnig gwobrau, o ddechrau'r flwyddyn academiaidd 2020–21 cynigiwyd ysgoloriaethau yn achos y ddau gwrs hyn, yn ogystal â chynnig ysgoloriaeth i fyfyrwr sy'n dilyn cwrs ôl-raddedig mewn cyfieithu mewn Prifysgol arall.

Dyfarnwyd ysgoloriaeth y Gymdeithas yn achos Prifysgol Aberystwyth i Meinir Angharad Hughes o Lanfihangel Glyn Myfyr ger Corwen, a fu'n dilyn llwybr y Dystysgrif yn rhan amser. Caiff yr ysgoloriaeth yn achos Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y Pryd ei gynnig am y tro cyntaf yn y flwyddyn academiaidd 2021–22.

Mewn ymgynghoriad â'r ddwy Brifysgol gohiriwyd dyfarnu'r gwobrau i'r myfyrwyr mwyaf addawol yn 2019–20 tan ddiwedd y flwyddyn academiaidd 2020–21.

- iii) i gynnig mentora gan aelodau profiadol o'r Gymdeithas i aelodau Sylfaenol sy'n dod i'r brig wrth ystyried y gwobrau yn yr arholiadau yn ogystal ag aelodau Sylfaenol addawol a brwdfrydig eraill, a thalu am un e-weithdy cyfieithu iddynt.



4. Cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol

Nod yr amcan strategol hwn yw cynnal a datblygu perthynas y Gymdeithas â gwahanol gyrff a sefydliadau, a meithrin partneriaethau allweddol. Bydd y rhain yn gyrff a sefydliadau y tu mewn a'r tu allan i'r byd cyfieithu, yng Nghymru a'r tu hwnt. Wrth wneud hyn, gallwn fod yn eiriol dros y Gymdeithas a'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg <> Saesneg mewn mannau dylanwadol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth cyrff a sefydliadau o werth a mantais defnyddio'r Gymraeg.

4.1 O fewn y byd cyfieithu

Er na chafwyd cyfleoedd i gynnal cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb â phenaethiaid cwmnïau cyfieithu ac unedau cyfieithu mewn sefydliadau cyhoeddus, bu'r Gymdeithas mewn cysylltiad â'r rhain mewn ffyrdd eraill, yn bennaf er mwyn gweld sut yr oedd Covid-19 wedi effeithio arnynt. Ysgrifennwyd at bron i hanner cant o sefydliadau ym mis Ebrill (a chael ymatebion gan tua'u hanner); ac ym mis Hydref cynhaliwyd arolwg o effeithiau Covid-19 ar gyfieithu ar y pryd trwy anfon holiadur at Aelodau CAP hunangyflogedig ac at gwmnïau (a chael ymatebion gan tua'u hanner).

Parhaodd y Gymdeithas i gynnal ei pherthynas a'i chysylltiadau â chymdeithasau a chyrrff cyfieithu, yn eu plith Institute of Translators and Interpreters (a'r grŵp ITI Cymru/Wales), Chartered Institute of Linguists a'r National Register of Public Service Interpreters. Daw'r Gymdeithas i gysylltiad uniongyrchol â'r rhain ac eraill trwy ei haelodaeth o Professional Interpreters for Justice (PI4J), grŵp ymbarél a chanddo'r nod o gynrychioli buddiannau cyfieithwyr ar y pryd yn y sector cyhoeddus, yn arbennig yn y sector cyfiawnder. Caiff y Gymdeithas ei chynrychioli ar y Pwyllgor Llywio gan y Prif Weithredwr.

Mae'r Gymdeithas yn aelod o Fédération Internationale des Traducteurs / International Federation of Translators, neu FIT, sef y gymdeithas ryngwladol sy'n cynrychioli buddiannau cymdeithasau cyfieithu proffesiynol. Bu'n ymwneud â FIT ar lefel rhyngwladol ac â'i changen Ewropeaidd. Cyfrannwyd erthygl am Her Gyfieithu 2020 i 'Translatio', cylchlythyr FIT.

4.2 Sefydliadau Addysg Uwch

Mae'r Gymdeithas yn aelod o Gonsortiw Astudiaethau Cyfieithu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chaiff ei chynrychioli gan y Prif Weithredwr. Bwriad y Consortiw yw cadw trosolwg strategol ar y ddarpariaeth academiaidd a gynigir gan gynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol Prifysgol Aberystwyth a'r Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y Pryd gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae'r Consortiw yn cynnig arweiniad a chynghor er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth academiaidd yn adlewyrchu anghenion hyfforddi'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu, yn ogystal â'r safon a'r rhychwant sgiliau angenrheidiol sydd yn ddisgwyliedig gan gyfieithydd proffesiynol ar ddechrau ei yrfa.

Mater o gonsyrn gwirioneddol i'r Gymdeithas oedd yr ansicrwydd a grëwyd gan gynigion gwreiddiol Prifysgol Bangor ynghylch dyfodol Canolfan Bedwyr, yn eu plith symud yr Uned Gyfieithu i'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol. Cadwyd mewn cysylltiad ag aelodau perthnasol o'r staff; a chynigiwyd cefnogaeth y Gymdeithas a werthfawrogwyd ganddynt. Rydym yn falch y datryswyd y mater mewn ffordd foddhaol.



Ymunodd y Gymdeithas, yn enw'r Prif Weithredwr, â Rhwydwaith Genedlaethol Technolegau Iaith Cymraeg a gaiff ei weinyddu gan yr Uned Technolegau Iaith ym Mhrifysgol Bangor.

Cafwyd cyfarfod â Dylan Foster Evans, Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd i drafod, ymysg materion eraill, cydweithio posibl yn y dyfodol, a bwriad Ysgol Ieithoedd Modern y Brifysgol i gynnwys y Gymraeg wrth ddatblygu PhD ym maes cyfieithu.

4.3 Cyrff a sefydliadau yng Nghymru

Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg

Roedd y Gymdeithas yn aelod o Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg, a gaiff ei gydlynu a'i weinyddu gan Uned y Gymraeg Llywodraeth Cymru. Caiff y Gymdeithas ei chynrychioli gan y Prif Weithredwr.

O ganlyniad i'r trafodaethau yng Ngrŵp Hyrwyddo'r Gymraeg ynghylch **maes amrywiaeth a chydaddoldeb** a'r hyn y dylai'r Grŵp a'r mudiadau sy'n aelodau ohono ei wneud i greu newid er gwell, penderfynodd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn ei gyfarfod ym mis Mawrth i fabwysiadu'r datganiad cychwynnol hwn ynghylch amrywiaeth, y gellir ei adolygu, oedd yn seiliedig ar ran gynta'r drafft o ddatganiad Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg, sef: 'Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru wedi ymrwmo i hyrwyddo cydraddoldeb yn ein holl weithgareddau a bydd yn gweithredu i ddileu gwahaniaethu ar sail y nodweddion "gwarchoddedig" a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010'. Hefyd datganwyd cefnogaeth i ymgyrch Cyngor Hil Cymru, 'Dim Hiliaeth Cymru'.

Comisiynydd y Gymraeg

Parhaodd y Gymdeithas i weithio'n agos gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar faterion yn ymwneud â chyfieithu.

Ar ddechrau cyfnod Covid-19 cafodd y Gymdeithas gyfle i gyfrannu sylwadau gwerthfawr i fersiwn ddrafft y nodyn cyngor 'Cynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog' a luniwyd i roi arweiniad ymarferol i sefydliadau ar sut y gellid parhau i gynnig gwasanaethau dwyieithog o safon. (Mae'r nodyn cyngor hefyd yn cyfeirio at y canllawiau wrth ddefnyddio Zoom a chyfieithu ar y pryd a gyhoeddwyd gan Amgueddfa Cymru).

Ym mis Mai darparwyd gwybodaeth am sefyllfa cyfieithu ar ei gais i Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig i effaith Covid-19 ar economi Cymru.

Yn dilyn sylw gan aelod iddi gollu gwaith oherwydd bod awdurdod lleol 'wedi cael caniatâd gan y Llywodraeth i beidio â chyflawni'r Safonau Iaith yn ystod y pandemig', cafwyd eglurhad cynhwysfawr gan y Comisiynydd ynghylch sut yr oedd yn bwriadu parhau i reoleiddio dyletswyddau iaith statudol yn ystod cyfnod Covid-19. Mae'n ymddangos nad oedd yr awdurdod dan sylw wedi gweld yn dda i dderbyn anogaeth y Comisiynydd i ystyried pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â'r cyhoedd. Rhoddwyd gwybod i'r Gymdeithas y byddid yn tynnu sylw'r Cyngor at hyn.



Yn dilyn yr ymosodiad seibr difrifol ar system dechnoleg gwybodaeth swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, cyfeiriwyd pobl i wefan y Gymdeithas i gael copiâu o'r ddogfen gyngor 'Cynnal cyfarfodydd dwyieithog' (a'r fersiwn Saesneg ohoni), yn ogystal â'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ddogfen gyngor 'Drafftio dwyieithog, cyfieithu a defnyddio'r Gymraeg wyneb-yn-wyneb', fel bod y dogfennau pwysig hyn ar gael i'w darllen a'i defnyddio.

Roedd y Gymdeithas yn falch iawn o weld fod 'Cau'r Bwlch', adroddiad sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2019–20, yn cynnwys is-adran ar gyfieithu.

Gwasanaeth y Llysoedd a Thriwlynlysoedd ei Mawrhydi (GLITEM)

Parhaodd y bartneriaeth bwysig rhwng y Gymdeithas ag Uned Iaith Gymraeg GLITEM a'r farnwriaeth yng Nghymru, partneriaeth allweddol yn y gwaith o sicrhau trefn a safon broffesiynol wrth ddarparu gwasanaeth CAP Cymraeg <-> Saesneg yn y llysoedd a'r triwlynlysoedd. Bu'r Prif Weithredwr a Hywel Hughes, Pennaeth Uned y Gymraeg GLITEM, mewn cyswllt rheolaidd ynghylch materion yn ymwneud â CAP yn y llysoedd.

Ddechrau 2020 penderfynwyd sefydlu Gweithgor Cyfieithu ar y Pryd mewn Llysoedd a Thriwlynlysoedd ar y cyd rhwng GLITEM, y farnwriaeth a'r Gymdeithas, gweithgor dan gadeiryddiaeth Barnwr Cyswllt y Gymraeg sy'n atebol i Bwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor. Bwriad y Gweithgor yw adolygu'r holl drefniadau ar gyfer cyfieithu ar y pryd yn y llysoedd a'r triwlynlysoedd er mwyn sicrhau fod safon y gwasanaeth yn parhau o'r safon uchaf. Arafwyd y trefniadau i ffurfio'r Gweithgor gan Covid-19 ond erbyn diwedd y flwyddyn roedd yr aelodau wedi'u dewis a threfniadau ar gyfer y cyfarfod cyntaf wedi eu gwneud. Mae 5 o Aelodau CAP y Gymdeithas yn aelodau ohono yn ogystal â'r Prif Weithredwr. Bydd bodolaeth y Gweithgor yn bwysig wrth warchod a diogelu'r trefniadau fu mewn grym ers rhai blynyddoedd ar gyfer darparu CAP yn y llysoedd.

Yr Her Gyfieithu

Parhaodd y Gymdeithas yn un o bartneriaid yr Her Gyfieithu i'r Gymraeg, cystadleuaeth a drefnir gan Gyfnewidfa Lên Cymru mewn cydweithrediad â Wales PEN Cymru. Y Gymdeithas, unwaith yn rhagor, a noddodd Ffon yr Her Gyfieithu o waith Elis Gwyn, Llanystumdwy. Enillydd Her Gyfieithu 2020 oedd Grug Muse.

Eisteddfod yr Urdd

Ar y cyd â'r Urdd, trefnwyd y gystadleuaeth cyfieithu i'r oedran 19–25 yn Eisteddfod yr Urdd 2020, ond oherwydd gohirio'r Eisteddfod, felly hefyd cyhoeddi'r enillydd.

Gwasg Prifysgol Cymru

Cytunodd y Gymdeithas i wneud cyfraniad ariannol tuag at gyhoeddi cyfrol Ben Screen, 'Sylfeini Cyfieithu Testun. Cyflwyniad i Gyfieithu Proffesiynol' gan y Wasg yn 2021. Yn ogystal â hynny, cafodd y Gymdeithas gyfle i gynnig sylwadau ar y deipysgrif. Roedd y Wasg a Ben Screen yn ddiolchgar iawn i'r Gymdeithas am ei hawgrymiadau a'i chymorth.



Cysylltiadau eraill

Mae'r Gymdeithas yn aelod o: Dathlu'r Gymraeg, Dyfodol i'r Iaith, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a Mantell Gwynedd.

4.4 Ymatebion i ymgynghoriadau ac ati

Ymatebwyd i lythyr a gafwyd gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn gofyn am sylwadau a syniadau gan rhanddeiliaid a phartneriaid Llywodraeth Cymru ynghylch adfer yr economi yng Nghymru yn sgil Covid-19 (Gorffennaf 2020). Pwysleisiodd y Gymdeithas y ffaith fod gan gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd rôl allweddol yn y nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr; a nodwyd ein hawydd i weld Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi yn y proffesiwn/diwydiant cyfieithu yn ei gyfanrwydd, yn ogystal â pharhau i gyllido'r Gymdeithas. Tynnwyd sylw at y modd y bu i gyfieithwyr ar y pryd addasu'n gyflym i'r dull newydd a dieithr o ddarparu CAP a hynny'n ddirwgnach ac yn broffesiynol; pwysigrwydd technoleg i effeithlonrwydd cyfieithwyr yn eu gwaith pob dydd; galwyd ar Lywodraeth Cymru i barhau i roi pwysau ar Microsoft i ddarparu ategyn a fydd yn caniatáu cyfieithu ar y pryd yn Teams; a nodwyd yr angen am fesurau i sicrhau fod sylfaen gref yn ei lle ar gyfer busnesau bychain sy'n arddel ac yn defnyddio'r Gymraeg (gan dynnu sylw at y ffaith fod 61% o aelodau'r Gymdeithas yn gweithio yn y sector preifat). Roedd y Gymdeithas yn falch iawn fod Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol yn ei hateb wedi cydnabod fod "cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd wedi bod yn hollbwysig i'r ffordd y mae sefydliadau o bob math wedi ymateb i'r pandemig, gan addasu i amgylchiadau newydd fel gweithio o adref, ac mae eu proffesiynoldeb yn hynny o beth wedi bod yn bleser i'w weld".

Ym mis Hydref 2020, pan gyhoeddwyd y cyfnod atal byr, anfonwyd e-bost at Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, yn pwysu arni i dynnu sylw ei chyd-Weinidogion perthnasol yn Llywodraeth Cymru at yr angen i sicrhau fod cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd yn gymwys i ymgeisio am y grantiau sydd ar gael i fusnesau. Yn ei hateb dywedodd fod ei 'swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â'r adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn ymwybodol o sefyllfa'r diwydiant cyfieithu'.

Roedd y Prif Weithredwr yn un o'r panelwyr yng nghyfarfod Grŵp Trawsbleidiol y Gymraeg ym mis Rhagfyr i drafod effaith Covid-19 ar y Gymraeg ac ystyried sut i ymateb i'r heriau sy'n deillio o hyn a chafodd y cyfle i amlinellu sut yr oedd cyfieithwyr wedi goroesi a'r hyn yr oedd y Gymdeithas wedi'i wneud.

Yn dilyn pryderon rhai aelodau ynghylch penderfyniad y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) i ganiatáu i ddarparwyr ar y cytundeb fframwaith cyfieithu a chyfieithu ar y pryd i ail-brisio eu gwasanaethau cyfieithu (Mehefin-Gorffennaf), ysgrifennodd y Gymdeithas at y GCC yn gofyn am ragor o wybodaeth ac eglurhad dros y penderfyniad. Pwysleiswyd wrthynt yr angen i ddarparu cyfarwyddiadau clir a digon o wybodaeth am y broses, yn ogystal â gwneud hi'n glir na fyddai'r un darparwr yn colli'i le ar y fframwaith os na fyddai'n ymateb i'r neges ganddynt. Dywedwyd wrth y Gymdeithas i'r materion hyn gael eu hystyried yn ofalus ac i'r pwyntiau a gyflwynwyd fod yn werthfawr wrth iddynt adolygu'r sefyllfa. Cafwyd cyfarfod hefyd â swyddogion y GCC i drafod



argymhelliad y Gymdeithas y dylid ychwanegu CAP o bell i'r strwythur brisio. O ganlyniad, lluniwyd dogfen a oedd yn egluro'r broses yn well ac yn cynnig cyfarwyddiadau cliriach.

Wedi i rhai Aelodau CAP dynnu sylw at neges a anfonodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan atynt ym mis Gorffennaf yn eu gwahodd i gael eu cynnwys ar restr o gyfieithwyr ar y pryd llawrydd allai ddarparu gwasanaeth CAP yn rhithwir i'r Bwrdd Iechyd am £20 yr awr, ysgrifennwyd at y Swyddog Iaith yn nodi fod hwn yn swm cwbl sarhaus ac yn llawer is na'r hyn sy'n arferol am wasanaeth CAP proffesiynol, yn ogystal â chynnig cyngor. Yn dilyn cyfarfod â'r Swyddog Iaith ysgrifennwyd at y Cyfarwyddwr Adran Addysg a Datblygu er mwyn i'r mater gael ei drafod ar lefel uwch yn y Bwrdd Iechyd, ond ni chlywyd dim.



5. Codi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol

Nod yr amcan strategol hwn yw codi proffil y Gymdeithas, hybu ein gwerthoedd proffesiynol, hyrwyddo gwasanaethau proffesiynol ein haelodau, a marchnata gweithgareddau a gwasanaethau'r Gymdeithas.

Bwriad y gweithgareddau marchnata a chyfathrebu, wrth gefnogi a hyrwyddo nod ac amcanion y Gymdeithas, oedd creu perthynas gadarnhaol â'r gwahanol garfanau y mae angen i'r Gymdeithas ymgysylltu â hwy, sef ei haelodau, darpar aelodau, cyfieithwyr eraill, sefydliadau a chyrrff, comisiynwyr cyfieithu, ac eraill y tu allan i'r byd cyfieithu gan gynnwys gwleidyddion. Roedd y gweithgareddau hyn hefyd yn fodd o dynnu sylw at swyddogaeth y Gymdeithas fel y corff proffesiynol i gyfieithwyr Cymraeg/Saesneg, ac i sicrhau proffil uchel i bob agwedd ar waith y Gymdeithas.

Targedwyd y sefydliadau ac unigolion oedd ar restr ohebu gyffredinol y Gymdeithas gyda gwybodaeth am weithgareddau'r Gymdeithas yn ôl y galw.

Mae gwefan y Gymdeithas – <https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/> – yn ganolog i weithgarwch marchnata a chyfathrebu'r Gymdeithas. Dyma'r unig le yn y byd i chwilio am wybodaeth am y byd cyfieithu Cymraeg.

I'r rhai sy'n chwilio am gyfieithydd neu gyfieithydd ar y pryd, mae gwasanaeth ar y wefan sy'n hwylus ac yn hawdd ei ddefnyddio i ddod o hyd i gyfieithydd, a hynny'n rhad ac am ddim. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys Cofnod Aelodaeth pob aelod sydd wedi rhoi ei ganiatâd i'r wybodaeth amdano ymddangos ar y wefan. Rhan bwysig o'r Cofnod Aelodaeth yw'r Proffil, sy'n rhoi cyfle i bob aelod gyflwyno gwybodaeth amdano'i hun.

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau y mae eu hangen ar gyfieithwyr ac unigolion sydd â'u bryd ar fod yn aelodau o'r Gymdeithas, gan gynnwys gwybodaeth am weithdai, cyn-bapurau arholiad ac adroddiadau'r Prif Arholwr, yr Ymarferion Cyfieithu (lefel Sylfaenol), a phob math o adnoddau defnyddiol megis geiriaduron a rhestrau termau. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys tudalen Newyddion a thudalen Swyddi (ar gyfer swyddi cyfieithu yn unig).

Diweddarwyd y wefan yn ôl yr angen gyda gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys ychwanegu manylion aelodau newydd a dileu y rhai nad oeddynt wedi talu'u tâl aelodaeth am y flwyddyn; gwybodaeth am yr arholiadau, yr e-weithdy cyfieithu bach, swyddi cyfieithu a'r dudalen Newyddion.

Mewn ymateb i'r amgylchiadau, ychwanegwyd tudalen CAP o bell at y wefan ac is-gategori newydd at y dudalen gwasanaeth chwilio am gyfieithydd ar y pryd er mwyn caniatáu i bobl ddod o hyd i Aelodau CAP sy'n cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o bell/dros fideo. Roedd 26 o unigolion a phedwar cwmni wedi eu cynnwys.

Hefyd, er mwyn tynnu sylw at weithgareddau'r Gymdeithas, defnyddiwyd cyfrif 'Twitter' y Gymdeithas – [@cyfieithwyr](https://twitter.com/cyfieithwyr) – a gosodwyd hysbysebion yn y wasg.

